

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Polisi Amgylcheddol



Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n sicrhau bod yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol ar gyfer gweithrediad effeithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu darparu. Ein nod yw bod yn sefydliad enghreifftiol o ran cynaliadwyedd, a sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithlon, gan roi sylw dyledus i'r egwyddor o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Caiff ein gwaith o ddydd i ddydd effaith ar yr amgylchedd, a hynny, yn bennaf, drwy ddefnyddio adnoddau (cyfleustodau a deunyddiau crai), drwy deithio a thrwy gynhyrchu gwastraff.

Mae Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i:

- Sicrhau y caiff ein hadeiladau eu defnyddio'n effeithlon, a chwilio am gyfleoedd i leihau'r defnydd o adnoddau naturiol wrth ddarparu ein gwasanaethau.
- Neilltuo amser ac adnoddau priodol i wella effeithlonrwydd ein hystâd wrth ddefnyddio ynni.
- Hyrwyddo ein rhinweddau o ran cynaliadwyedd i'r cyhoedd, ein hymwelwyr a rhanddeiliaid eraill;
- Sicrhau bod pob Aelod Cynulliad, eu staff cymorth, staff y Comisiwn a defnyddwyr eraill ein hadeiladau yn deall yn llwyr y cyfraniad y gallant ei wneud i wella ein perfformiad amgylcheddol;
- Datblygu diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol ymysg defnyddwyr ein hadeiladau, ein contractwyr, ein cyflenwyr a'r ymwelwyr â'n hadeiladau.
- Osgoi teithio diangen pan fydd hynny'n bosibl a hyrwyddo teithio cynaliadwy wrth gyflawni ein dyletswyddau.
- Gosod ystyriaethau o ran cynaliadwyedd yn ganolog yn ein prosesau tryloyw o wneud penderfyniadau, a'u cyfuno ag egwyddorion prynu sy'n ffafrio'r cynnyrch a'r gwasanaethau hynny sy'n achosi'r niwed lleiaf i'r amgylchedd.
- Ei gwneud yn ofynnol i'n cyflenwyr a'n contractwyr gefnogi ein polisi amgylcheddol wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau.
- Cynllunio, addasu a sicrhau bod adnoddau/campau digonol ar waith i sicrhau bod ein hasedau yn cael eu diogelu at y dyfodol yn erbyn heriau a ddaw yn sgîl hinsawdd sy'n newid.
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, safonau a chyfrifoldebau cydymffurfio amgylcheddol eraill.
- Cynnal gweithdrefnau a mesurau ffisegol i amddiffyn yr amgylchedd, gan gynnwys trwy atal llygredd.
- Gosod amcanion a thargedau amgylcheddol uchelgeisiol heriol, i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus, a nodi'r cynnydd o ran yr amcanion hyn yn gyhoeddus.

Mae'r datganiad polisi hwn yn berthnasol i ystâd y Cynulliad drwyddi draw (gan gynnwys Tŷ Hywel, y Senedd, y Pierhead a'n swyddfa ym Mae Colwyn) a chaiff ei adolygu bob blwyddyn a'i ddarparu i'r holl staff ac i bobl eraill sydd â diddordeb drwy ein gwefan. Bydd yn rhan o gontract y cyflenwyr sy'n defnyddio ein safle, a bydd ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais am gopi.

Caroline Jones AC
Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad

Manon Antoniazzi
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad